Y Daith o Lyfryddiaeth Archaeolegol Prydain ac Iwerddon (BIAB) i Lyfrgell y Gwasanaeth Data Archaeoleg (ADS)

Jo Gilham: Archifydd Digidol a Rheolwr y Prosiect HERALD, Y Gwasanaeth Data Archaeoleg

Pan awgrymwyd y syniad o gyfuno holl adnoddau testunol y Gwasanaeth Data Archaeoleg â Llyfryddiaeth Archaeolegol Prydain ac Iwerddon i greu un Llyfrgell Gyhoeddiadau, roedd yn ymddangos yn ddigon syml. Mae'r cyfan yn ddata llyfryddol, felly siawns na fyddai'n rhy anodd eu cyfuno?



Yn y papur hwn byddwn yn disgrifio uchafbwyntiau ac 'iselbwyntiau' y broses o uno'r data o'r BIAB gyda'r data o'r Llyfrgell o adroddiadau gwaith maes anghyhoeddedig a chylchgronau a monograffau. Aethom ati i ddarganfod copïau dyblyg, i adnabod awduron unigol a gwahaniaethu rhyngddynt, ac i geisio cysoni'r gwahanol setiau data'n rhaglennol er mwyn cynhyrchu adnodd a fyddai'n galluogi pobl i ddod o hyd i'r adroddiadau a chyhoeddiadau archaeolegol roedden nhw'n chwilio amdanynt. Mae'r canlyniadau cadarnhaol, fel gweithio gyda sefydliadau eraill, wedi ein galluogi i rannu arbenigedd a gobeithiwn drosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd drwy lunio cyngor i'r rheiny sy'n ymgymryd â'r dasg o gysoni setiau data hanesyddol eraill.